Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru | South Wales Fire and Rescue Service

# Datblygydd Amlgyfrwng

**Rhif y Swydd: 504044**
**Gradd 8**
**37 awr yr wythnos**
**Parhaol**
**Ystod cyflog: £30,296 - £31,364 y flwyddyn**

Mae cyfle cyffrous wedi codi ar gyfer Datblygydd Amlgyfrwng o fewn Uned Cefnogi Hyfforddiant Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Lleolir y swydd hon yng Nghanolfan Hyfforddi a Datblygu Porth Caerdydd, Heol yr Eglwys, Hen Laneirwg, Caerdydd, CF3 6YA. Rydym yn sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd ac mae system gweithio hyblyg ar waith.

Gan weithio fel rhan o'r Uned Cefnogi Hyfforddiant ac adrodd i'r Arweinydd Tîm Datblygu Amlgyfrwng, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn darparu gwasanaeth dylunio ac amlgyfrwng o ansawdd uchel ac effeithlon trwy greu deunyddiau hyfforddi i gefnogi holl weithgareddau'r Gwasanaeth yn â hyfforddiant, datblygiad a hyfedredd sgiliau pharhaus.

Yn ogystal, byddwch chi'n darparu arbenigedd technegol yng ngweithrediad systemau TGCh y tîm gan gynnwys PDRpro a Learnpro a byddwch chi'n datblygu senarios rhyngweithiol ar gyfer darparu hyfforddiant Rheoli Digwyddiad i staff GTA De Cymru ar y cyd ag Arweinydd y Tîm Datblygu Amlgyfrwng.

Mae angen sgiliau trefnu rhagorol, mae cywirdeb a sylw i fanylion hefyd yn hanfodol ar gyfer y rôl hon, yn ogystal â'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar draws pob lefel, gydag ystod o randdeiliaid mewnol ac allanol. Darperir hyfforddiant yn systemau meddalwedd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Gall y rôl hon olygu rhywfaint o deithio o bryd i'w gilydd rhwng safleoedd ledled De Cymru. Rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus allu teithio'n annibynnol.

Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol ond nid yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr sydd â phrofiad addas a nodir yn y Manyleb Person.

Mae pob penodiad ar gyfer y rôl hon yn amodol ar gyflawni gwiriad Manwl y Rhestr(au) Gwaharddedig gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) gwiriad rhestr troseddol, gwiriad trwydded yrru a cyn y gwneir unrhyw gynigion ffurfiol bydd yn ofynnol i'r ymgeiswr llwyddiannus gael prawf Cyffuriau ac Alcohol ac asesiad meddygol.

Dylid llenwi Ffurflenni Cais ar-lein trwy ein system e-recriwtio, y gellir ei chyrchu trwy ein gwefan: https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-i-ni/swyddi-gwag-diweddaraf/

Os oes angen fersiwn papur, e-bostiwch: personel@decymru-tan.gov.uk

Dylai pob ymgeisydd mewnol wneud cais trwy eu porth CORE, gan ddewis “Swyddi Gwag Cyfredol” o'r tab ar y chwith.

Sylwch y bydd y system e-recriwtio yn hysbysu pob ymgeisydd o'r canlyniadau trwy'r cyfeiriad e-bost a ddarperir yn y cais; Dylech sicrhau eich bod chi’n gwirio pob ffolder negeseuon yn rheolaidd.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw 26/04/24 **am 12:00 hanner dydd.**

Mae’r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac rydym yn croesawu cyfathrebu yn y ddwy iaith. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddo yn y cam Llunio Rhestr Fer yn cael cyfle i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau llafar a chwestiynau cyfweliad). Bydd y trefniadau'n cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweliad a gellir darparu gwasanaeth Cyfieithu a/neu Gyfieithu ar y Pryd.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn credu yng ngwerth gwirioneddol cael gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol i ymgeiswyr o bob sector cymdeithas ymgeisio.